# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

15 Tachwedd/November, 2013

At : Aelodau Cygor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar Dydd Iau, 21 Tachwedd 2013 am 2.00 p.m., yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Richard P. Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on Thursday, 21 November, 2013 at 2.00 p.m., at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni , to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Richard P. Jones*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u llofnodi, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2013.

**3** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

*"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd"*

**4** **YSTYRIED ARGYMHELLION YR YMGYNGHORWYR ALLANOL AR Y BROSES I WAREDU A SAFLE RHOSGOCH**

Derbyn adroddiad llafar mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes (Cadeirydd)<br>Mr. Aled Morris Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Mri. Lewis Davies, Richard A. Dew, Jeff Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, Kenneth P. Hughes, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, Carwyn Jones, Gwilym O. Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, Richard O. Jones, R.Ll. Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Peter S. Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd R. Thomas, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151,<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mri. Derlwyn R. Hughes, Trefor Ll. Hughes, W.T. Hughes, Dylan Rees. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r canlynol:-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12 y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."*

**3** **PENODI SYRFËWR CYMWYSEDIG I WEITHREDU AR RAN YR YMDDIRIEDOLAETH GYDA GWERTHU TIR YR ELUSEN AC I ROI CYNGOR AR FATERION PERTHYNOL**

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd yn rhoi gwybodaeth gefndirol ar y bwriad i gyflogi Syrfëwr Cymwysedig mewn perthynas â'r uchod.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag amseriad y gwerthiant arfaethedig a chefndir moesegol y cwmni oedd yn cael ei ystyried..

**PENDERFYNWYD y dylid rhoddi awdurdod i'r Ysgrifennydd symud ymlaen i benodi Syrfëwr Cymwysedig i weithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth gyda gwerthu tir yr elusen ac i roi cyfarwyddyd i'r Cyngor ar faterion perthynol.**

(Roedd Ms. Ann Griffith yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei bod wedi atal ei phleidlais ar y mater.)

**4** **GWEINYDDU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YN Y DYFODOL**

Cymerodd yr Ysgrifennydd y cyfle i roi diweddariad i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed ynglŷn â gweinyddu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am i adroddiad ar y mater gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth a bod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi yn y cyfarfod hwnnw i'r polisi mewn perthynas â buddsoddiadau a grantiau.

**PENDERFYNWYD y byddid yn gofyn i'r Ysgrifennydd adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Ymddiriedolaeth ar y materion a godwyd uchod.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**